CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS **FERCHER**
03 Mai 2022,

YN BRESENNOL: **Cyng. D.I. Roberts (Cadeirydd), N Jones, D Gwyn, LI. Roberts, A Mummery, M Jones (Cyngor Sir). A. Le Cras (Clerc)**	
YMDDIHEURIADAU: S. Hughes, R. Williams (Cyngor Sir)	
1	**Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cynghorydd D.I. Roberts.**
2	**DATGAN DIDDORDEB — Dim**
3	**DERBYN COFNODION** **Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 06:04:2022. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng A. Mummery yn cynnig a Cyng D. I. Roberts yn eilio.**
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes Chwarae — Y Clerc i weithredu ar frys i wneud cais grant.** **Ed Henderson, Swyddog o'r Cyngor Sir am ddod i archwilio'r coed. Posibilrwydd fod clefyd gwywiad yr onnen arnynt.**
4.2	**Elusendai Penmynydd — Dim gweithgaredd pellach I adrodd arno.**
4.3	**Eglwys Saint Gredifael — Cynhaliwyd cyfarfod o Ffrindiau'r Eglwys yn ddiweddar ond nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer yr eglwys.**
4.4	**Diogelwch Ffyrdd a goryrru — Nodwyd nad yw cyfarfod wedi'i gynnal hyd yma rhwn Cyngor BroLlanfairpwll a CSYM. Teimlwyd fod y mater wedi'l godi gyda'r Cyngor Sir sawl gwaith ond nid oes modd cael newid y cyflymdre trwy Penmynydd a Star. Awgrymwyd efallai byddai modd cael arwyddion neu phaentio'r lon I dynnu sylw gyrrwyr at y terfyn cyflymder.**
4.5	**Ffens o amgylch mast (Ty'n Llan)** **Y Clerc i gysyllltu gyda S. Hughes am ddiweddariad.**
5.0	**Gohebiaeth CSYM**
5.1	**Derbyniwd 5 enwebiad ar gyfer yr etholiad Cyngor Cymuned Penmynydd. Bydd angen cyfethol 3 aelod. Y Clerc i hysbysebu'r seddi gwag.**

6.0	**Materion Ariannol — Y Clerc wedi paratoi y cyfrifon ar gyfer archwiliad mewnol. Angen diweddaru cofnodion a dogfennau ar y safle we cyn eu cyflwyno.**
7	**MATERION ERAILL**
7.1	**Diolchodd M. Jones i'r aelodau a'r clerc am eu cydweithrediad a'u cyfeillgarwch dros y blynyddoedd diwethaf. Dymunwyd yn dda i Meirion ar ei ymddeoliad.**
7.2	**Diolchodd D. I. Roberts i M Jones am ei waith dros y blynyddoedd. Nodwyd byddai colled mawr i'r Cyngor Cymuned ar ei ol a gofynwyd iddo ail ystyried ei benderfyniad.**
8.0	**Cyfarfod Nesaf 01/06/22**
	Llofnod Cadeirydd 01/06/2022